CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

*Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd y Cwrwgl, Llechryd yn union wedi Cyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 5 Mehefin 2023 yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.*

---

Presennol:
Cadeirydd Cyng Iwan Davies. Cyngr: Jan Culley, Hywel Davies, Iwan Davies, Ruth Davies, Amanda Edwards, Garethe El Tawab, Colin Lewis, Ken Symmons, Clive Wychwood

CS A Edwards

Clerc

Aelodau'r Cyhoedd: O

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Nicky Redmond a Richard Rose.

**2. Datgan Diddordeb ar faterion sy'n codi o'r Agenda**
Datgelodd y Cyng I Davies ddiddordeb yn eitem 7.4 Dyfynbris e-bost ac eitem 7.8.
Datgelodd y Cyng A Edwards ddiddordeb yn eitem 10.1 Prydles.

**3. Cadarnhau Trefn yr Agenda** a nodi unrhyw eitemau y gellid eu datrys ar gyfer sesiwn gyfrinachol.
Derbyniwyd yr agenda fel y cafodd ei chyflwyno.

**4. Cadarnhau Cofnodion 15-05-23**

| | Cynigiwyd | Eiliwyd | |
|---|---|---|---|
| Derbyn y cofnodion fel cofnod cywir. | Cyng A Edwards | Cyng C Wychwood | Cytunwyd |

**5. Ceisiadau Cynllunio**
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

Mae dogfennau cynllunio i'w gweld yn: https://www.ceredigion.gov.uk/resident/planning-building-control-and-sustainable-drainage-body-sab/planning-building-control/

*Gorfodi Cynllunio*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*Diweddariad LDP2*

Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

**6. Adroddiad y Cynghorydd Sirol**

Dywedodd y CS A Edwards fod y Cyngor Sir wedi penodi Cadeirydd newydd.
Dywedwyd wrthi fod 7 damwain wedi bod rhwng Aberteifi a Llechyd ar yr A484 yn 3 blynedd diwethaf, a dim un oherwydd cyflymdra. Roedd hynny'n golygu nad oedd cyfiawnhad dros gael terfynau nac arwyddion cyflymdra.
Dywedodd fod adran ar wefan CSC sy'n hysbysebu ymgyngoriadau'n unig.

Gofynnodd am roi yn y cofnodion fod y cadarnhad fod y polisi gosod tai yn dal yn gymwys i Glannant.

**7. Cyllid a Gweinyddu**

*7.1 Taliadau Misol*

| | | |
|---|---|---|
| S Davies | Cyflog gros, SC | 645.14 |
| Danfo | Anfoneb 7038 a 7148 | 639.00 |

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Erbyn y taliadau fel y cawsant eu cyflwyno. | Cytunwyd |

*Oriau'r Clerc*

Er mwyn cynnwys paratoi ffeil yr archwiliad mewnol ac ati, gall y bydd angen i'r Clerc weithio goramser eto i gynnwys gwaith sylfaenol e gwaith prosiect.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Talu am oramser i gynnwys gweithio oriau ychwanegol. | Cytunwyd |

*7.1.2 Cymhwysiad y Banc*

I gael ei ddarparu.

*7.2 Diwedd blwyddyn*

*7.2.1 Archwiliad mewnol – yn amodol ar gael archwiliad wedi ei gwblhau, bydd angen cyfarfod eithriadol erbyn diwedd mis Mehefin i gymeradwyo'r AGAR.*

Dan bwerau wedi eu dirprwyo, bod y Clerc, drwy ymgynghori â'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, wedi cadarnhau penodi Archwilydd Mewnol am gost o £325.

*7.3 Cyfarfodydd y dyfodol*

*7.3.1 Cyfieithu yng nghyfarfodydd y Cyngor*

Dywedwyd bod Un Llais Cymru yn penodi Rheolwr Prosiect Digidol i helpu cynnal datblygiad digidol yn y sector cyhoeddus i rannu a hyrwyddo mabwysiadu mentrau digidol, arfer da a safonau cyffredrin. Byddai'r swydd yn cynnwys ymchwilio i ddarparu cyfieithu ar y pryd.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Y Cyng Iwan Davies i gysylltu â'r Fenter Iaith i gael rhagor o wybodaeth, yn eu cyfarfod nesaf, yn Neuadd y Cwrwgl. | Cytunwyd |

*7.3.2 Defnyddio Hen Ysgol Llangoedmor*

*Diweddariad gan yr Ymddiriedolwyr Cyng G El Tawab*

Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*7.4 Diogelu Data*
O gofio profiad Cyngor Cymuned o ddelio â thoriad data a'r amser a'r adnoddau angenrheidiol i wneud hynny, dywedwyd y dylai'r Cyngor gymryd camau i leihau'r tebygolrwydd i doriad felty ddigwydd.

Argymhellwyd defnyddio e-bost penodol y Cyngor yn hytrach nag e-bost personol a bod pob dogfen sensitif yn cael ei diogelu wrth ei hanfon drwy e-bost.

Roedd dyfynbrisiau wedi dod ar gyfer darparu e-bost penodol ac Office 365 a fyddai'n caniatau i'r Clerc amgryptio ffeiliau cyn eu hanfon drwy e-bost.

*Ni chymerodd y Cyng I Davies ran yn y bleidlais.*

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| **Derbyn y dyfynbris gan Antur Cymru Enterprise** (Telemat) ar gyfer Trwydded Exchange Online (Cynllun 1) (Cost y mis) am gost o 3.96 x 11 i'r Cynghorwyr, Trwydded Microsoft Business Standard (Cost y mis) 5.88 i'r Clerc a Llafur am osod Office 365 Tenancy i fyny. Defnyddio'r parth presennol llangoedmorcc.org.uk. | Cytunwyd |

*Hyfforddiant i Gynghr: Un Llais Cymru*
Mae sesiynau o bell yn costio £345.00 ar gyfer hyd ar 20 o bobl.

Yr hyfforddwr wyneb yn wyneb agosaf oedd gan Un Llais Cymru oedd yn Cross Hands. Cost y sesiwn fyddai £450,00 a thaliad ychwanegol am gostau teithio'r hyfforddwr o .45c y filltir. Nid oedd sicrwydd y byddai'r hyfforddwr yn barod i deithio.

Roedd cael hyfforddwr i weithio o bell yn rhoi mwy o bosibiliadau.

*7.5 Cofrestru tir*
Yn parhau.

*7.6 Cylchlythyr*
Yn parhau.

*7.7 Diweddariad am rodd o dir a chytuno ar unrhyw ymateb*
*Diweddariad gan y Cyng A Edwards*
Roedd y Cyngr wedi ymweld â'r safle i siarad â'r perchennog ond nad oedd hwnnw'n bresennol. Dywedodd aelod o'r teulu nad oedd perchennog yr eiddo yn hapus â'r sefyllfa.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Cysylltu â Chyfreithiwr yr Ystâd i gael y diweddaraf am y sefyllfa oddi wrth y Gofrestrfa Tir. | Cytunwyd |

*7.8 Grantiau*

*RAY Ceredigion*

Roedd y Clerc wedi gweld tystiolaeth o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a byddai asesiad risg penodol yn cael ei wneud cyn unrhyw sesiwn. Pe byddai'r grant yn cael ei ganiatau, byddai'n rhaid i'r Ymddiriedolwr gymeradwyo defnyddio'r cae a dyddiadau'n cael eu cytuno.

Roedd y Clerc yn dal i ddisgwyl i'r Pwll Nofio ddod yn ôl am y grant arfaethedig, ond mae'n bosibl defnyddio arian o'r cronfeydd wrth gefn.

Roedd Jig-So wedi cael £250 tuag at un sesiwn chwarae i'w chynnal yn y clwb pêl-droed.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Gofyn i RAY Ceredigion gyfrannu arian cyfatebol oherwydd yr arian y gofynnwyd amdano. Bod unrhyw gynlluniau chwarae eraill a arfaethir yn y pentref yn cael eu nodi. | Cytunwyd |

*7.9 Bathodyn y Swydd i'r Is-gadeirydd*

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Ymchwilio i fathodyn y swydd a chael cost. | Cytunwyd |

*7.10 Cais y Clerc am wyliau*

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Cymeradwyo cais y Clerc am wyliau. | Cytunwyd |

**8. Pwyllgorau**
*Y Pecyn Cymorth Cyllid  a Llywodraethiant ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned*
Aelodau'r Pwyllgor Cyngr J Culley, A Edwards, R Davies, C Wychwood

Cymeradwyo'r argymhelliad ar gyfer y ddogfen Gweledigaeth a Diben.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Bod y Pwyllgor yn edrych eto ar y ddogfen Gweledigaeth a Diben i'w byrhau a'i gwneud yn haws ei darllen. Gofynnwyd i'r Cynghr anfon sylwadau at y Clerc cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 12-06-23. | Cytunwyd |

**9. Priffyrdd a Hawliau Tramwyo Cyhoeddus**
*9.1 Mannau Gweithredu – Priffyrdd i gynnwys Croes-y-llan*
Roedd y darn o'r B4570 lle'r oedd y bont wedi ei thrwsio yn peri pryder oherwydd cyflymdra traffig. Cadarnhaodd y CS A Edwards fod CSC yn edrych ar yr ardal. Byddai'r Clerc yn cysylltu â CSC am y pryder parhaus am y gyffordd wrth ymyl Tafarn Penllwyn-du.

Dywedwyd bod CSC wedi torri'r borfa ar ymylon y ffordd er mwyn diogelwch. Dylai'r prif doriadau ddechrau erbyn diwedd Mehefin. Nodwyd bod yr hadau blodau gwylltion ar gael.

*9.1.1 Arhosfan bws yng Nghroes-y-llan*
Roedd rhai pryderon wedi eu mynegi ynglŷn ag ymgynghori â perchnogion tir am y cynigion. Cytunwyd, os byddai'r holl fanylion cyswllt  ar gyfer y rheiny yn union wrth ymyl y safle arfaethedig yn cael eu darparu, yna byddid yn cysylltu â nhw. Byddai manylion yr arolwg yn cael eu harchwilio cyn eu dosbarthu.

*9.1.2 Croesfan yn Llechryd*
Yn parhau.

*9.2 Llwybrau troed / mannau agored*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*9.2.1 Pont Llechryd / yr Afon – Nodi'r sefyllfa bresennol a chytuno ar unrhyw gamau pellach.*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

**10. Amwynderau**

*10.1 Bloc Toiledau – Cymeradwyo drafft y ddogfen brydles*

*Gadawodd y Cyng A Edwards y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais.*

Roedd drafft o brydles wedi ei ddarparu gan gyfreithiwr y Cyngor gyda chopi i Ymddiriedolwyr Neuadd y Cwrwgl.

Gofynnwyd a oedd y brydles yn caniatau i eitemau i'w defnyddio gan y gymuned, fel yr hysbysfyrddau a'r diffibrileiddiwr, barhau.

Roedd angen map addas ar gyfer y Gofrestrfa Tir, a dylid cyflogi cyfreithiwr.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Cymeradwyo drafft y brydles yn amodol ar gadarnhau eitemau cymunedol, a bod cyfreithiwr yn cael ei gyflogi i ddarparu'r map angenrheidiol ar gyfer y Gofrestrfa Tir ar gost y Cyngor. Y penodiad i gael ei ddirprwyo i'r Clerc drwy ymgynghori â'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd. | Cytunwyd |

*10.2 Man / Cae Chwarae – pob penderfyniad yn amodol ar ei gymeradwyo gan* Gymdeithas Cae Chwarae Llechryd.

*10.2.1 Gwaith heb ei wneud gan gynnwys gwaith trwsio o archwiliad ROSPA 2022*
Yn parhau. Roedd archwiliad blynyddol 2023 wedi ei drefnu.

*10.2.2 Cyflwr llwybr y ffin*
Yn parhau.

*10.2.3 Baw Cŵn*
Hysbysiadau CCTV i gael eu darparu.

*10.2.4* Adnewyddu'r ffrâm ddringo – bydd yn dal yn eiddo i'r CC
Problemau Sovereign gyda'r gosod

*10.3 Eglwys y Groes Sanctaidd, Llechryd*
Cymeradwyo'r gwaith penodol ar gyfer cais y cyfleustra i'r Eglwys yng Nghymru.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Defnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd gan y Pensaer i gyflwyno cais pellach am drwsio'r llwybr i'r Eglwys yng Nghymru. | Cytunwyd |

*10.4 Adeilad y Mileniwm*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*10.5 Mainc goffa i'r trigolion*
Mynd ar ôl y dyfynbris.

*10.6 Darparu rhandiroedd*
Yn parhau.

*10.7 Cysgodfannau bws*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*10.8 Diffibrileiddwyr*
Neuadd y Cwrwgl

Llangoedmor
Roedd y diffib newyd wedi cyrraedd. Byddai'r Clerc yn ei gofrestru a threfnu iddo gael ei osod yn y cwpwrdd.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Archebu arwyddion i'w gosod ar y mur yn Neuadd y Cwrwgl ac yn Cardi Builders. Dirprwyo hyn i'r Clerc drwy ymgynghori â'r Cyng A Edwards a'r Cadeirydd. | Cytunwyd |

*10.9 Hysbysfyrddau*
Gofynnwyd i'r Cyngr awgrymu lleoliad addas ar gyfer yr hysbysfwrdd iechyd arfaethedig. Nodwyd y gallai fod angen caniatâd cynllunio os byddai'n sefyll ar ei ben ei hun.

*10.10 Biniau newydd (postyn, clawr, man chwarae)*
Yn parhau.

**11. Digwyddiadau**
*11.1 Glanhau Afon Teifi*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*11.2 Parti yn y Parc – 1 Gorffennaf 2023, 2pm i 6.30pm.*

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Cytunodd y Cyng J Culley yn garedig i drefnu arddangosiad o wybodaeth y Cyngor wedi ei darparu gan y Clerc. Gofynnwyd i'r Cyngr, os gallent, alw i mewn a threulio ychydig amser yn y digwyddiad. | Cytunwyd |

**12. Adroddiadau cyfarfodydd**
Derbyn unrhyw adroddiadau.
*12.1 Cyng R Davies – Llywodraethwyr Ysgol*
*12.2 Cyng A Edwards – Neuadd y Cwrwgl*
Roedd angen i'r Neuadd gael ei gosod yn amlach i ddarparu lefel addas o incwm.

*12.3 Cyngr A Edwards ac R Davies - cyfarfod PACT*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*12.4 Grŵp Gwytnwch (i gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am lifogydd)*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*12.5 Cyng J Culley Pwyllgor Rhanbarthol Un Llais Cymru*
Dywedwyd y byddai'r cyfarfod nesaf ar 4 Gorffennaf 2023.

*12.6 Cyng J Culley Pwyllgor Moeseg a Safonau*
Dywedwyd y byddai gwybodaeth am achosion gwirioneddol a oedd wedi cael sylw gan y Pwyllgor yn cael ei hanfon o gwmpas.

*12.7 Cyng C Lewis* Digwyddiad Rhanddeiliaid yr Afon
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

12.8 Cyng K Symmons *Cyfeillion Ysbyty Aberteifi*
Dywedwyd y byddai'r grŵp yn newid ei enw i adlewyrchu ei gefnogaeth i'r Ganolfan Iechyd gan nad yw'r ysbyty'n bodoli mwyach.

**13. Gohebiaeth (i gynnwys dogfennau ymgynghori heb eu cynnwys dan unrhyw**

**bennawd arall)**

Cynigion Un Llais Cymru ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2023. Gwahoddir pwyllgorau sy'n aelodau i gyflwyno hyd at ddau gynnig ar gyfer dadl yn y CCG ddydd Sadwrn 30 Medi 2023. Rhaid iddynt gyrraedd y swyddfa hon erbyn canol dydd ddydd Gwener 23 Mehefin 2023 i'w hystyried gan Bwyllgor Cynigion y Gynhadledd.

Nodwyd.

Arolwg o Ffiniau Cymunedau Ceredigion

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Y dylai'r Cyngr roi eu barn i'r Clerc erbyn diwedd yr wythnos. Dirprwywyd yr ymateb i'r Clerc. | Cytunwyd |

**14. Materion Personol Cyfnewid Gwybodaeth gan y Cynghorwyr**

Gofynnwyd a ddylid gosod y blychau pryfed a oedd wedi eu gwneud yn ystod y prosiect Llwybr ar gyfer Llesiant. Byddai'r Cyng A Edwards yn cysylltu â swyddog y prosiect.

Dywedwyd y byddai gwirfoddolwyr yn gofalu am y blychau blodau, plannu perlysiau etc i'w defnyddio gan y gymuned.

Cytunwyd, yn dilyn camddealltwriaeth am gynnal a chadw borderi llwyni, y byddai contractiwr y Cyngor yn parhau i'w chwynnu a'u tocio yn hytrach na cheisio newid y contract ar ei ganol. Byddent yn cael eu dileu o'r contract ar gyfer tymor 24-25.

Gofynnwyd a oedd Afon Teifi yn addas i nofio ynddi.

**15. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 03-07-23**

*Gan nad oedd dim busnes pellach i'w drafod, daeth y cyfarfod i ben am 9.50pm.*